

# Cofnodion



## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

---

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, C Townsend, T Watkins, B Davies, P Drewett, D Jenkins, M Pimm and A Screen

Samantha Schanzer (Cyngorydd Craffu), Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services) and Mary Ryan (Head of Adults Services)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr P Bright

---

### 1 Ymddiheuriadau

Cyng. P Bright

### 2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim

### 3 Minutes of Previous Meeting

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 eu **derbyn fel cofnod cywir**.

### 4 Adroddiad Diwedd Blwyddyn y Gwasanaethau Plant

**Sally-Anne Jenkins - Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngorydd Stephen Marshall – Aelod Cabinet dros Wasanaethau**

**Cymdeithasol**

**Cyngorydd Jason Hughes – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol waith cyson y staff, a diolchodd iddynt.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol yr adroddiad.

Soniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod rhan o'r flwyddyn wedi bod dan gyfyngiadau'r pandemig, ond bod y staff wedi parhau i gyflwyno pob gwasanaeth, bron. Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at ymrwymiad ac ymroddiad y staff i bobl fregus.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor fod Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal gwiriad sicrwydd, a bod eu sylwadau'n dangos fod gwasanaethau wedi eu cyflwyno'n ddiogel ac effeithiol. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol fod yr adroddiad yn dangos fod staff y Gwasanaethau Plant yn parhau i weithio'n greadigol ac arloesol, ar waethaf yr heriau cyson.

Soniodd y Cyfarwyddwr Strategol am y datblygu cyson mewn gofal preswyl, a phwysleisiodd fod ganddynt ymrwymiad cryf i ddatblygu gwell darpariaeth i blant Casnewydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod Cyngor Dinas Casnewydd o flaen awdurdodau lleol eraill o ran rhoi'r gorau i elw mewn gofal plant, am eu bod wedi datblygu eu darpariaeth eu hunain. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor y dylai Fferm Windmill fod ar agor yn fuan, a bod disgwyl i'r adeiladwyr drosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymhen pythefnos.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor eu bod wedi llwyddo i gefnogi plant oedd yn ceisio lloches nid yn unig yng Nghasnewydd ond yn y rhanbarth oherwydd lefel eu harbenigedd.

Roedd y Cyfarwyddwr Strategol yn cydnabod y bu tanwariant, ond dywedodd wrth y pwyllgor nad arwydd oedd hyn nad oedd ar y meysydd gwasanaeth angen yr adnoddau. Dywedodd eu bod wedi derbyn cyllid a grantiau gan Lywodraeth Cymru, a bod hyn wedi helpu'r gyllideb ond ei fod yn dod i ben.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn awyddus i fwrw ymlaen â bod yn Rhiant Corfforaethol, ond y bu oedi yn genedlaethol. Ategodd y Cyfarwyddwr Strategol ddiolchiadau'r Aelod Cabinet, a llongyfarchodd staff y maes gwasanaeth.

Diolchodd y pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Strategol a'i thimau am eu gwaeth yn wyneb yr heriau, gan ychwanegu eu gwerthfawrogiad o'r fideos.

### **Cwestiynau:**

Gofynnodd y pwyllgor a yw'r Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweld unrhyw heriau yn deillio o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i adawyr gofal?

- Cydnabu'r Cyfarwyddwr Strategol y pryder am ddiogelwch pobl ifanc yn y peilot ac unrhyw heriau fyddai'n dod yn ei sgil. Sicrhaodd y pwyllgor mai'r prif ganolbwynt fyddai ar gefnogi pobl ifanc yn y cynllun i aros yn ddiogel. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod wedi llwyddo i argyhoeddi Llywodraeth Cymru i newid taliadau o fod yn fisol i bob pythefnos, ac y byddai rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor eu bod eisoes wedi nodi'r 43 plentyn yng Nghasnewydd fyddai'n gymwys am y cynllun peilot. Teimlai y byddai'r nifer fechan yn galluogi'r maes gwasanaeth i weithio'n agos gyda'r plant hynny.

Gofynnodd y pwyllgor pa welliannau oedd eu hangen, pa mor hir fyddai hyn yn gymryd, ac a oedd unrhyw anawsterau'n cael eu rhagweld?

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor fod modd gweld adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru i gael y manylion. Dywedodd nad oedd dim fyddai angen Cynllun Gweithredu na Chamau Brys, ac y byddai'r adroddiad yn debyg o amlinellu'r hyn y gwnaed sylwadau amdanynt. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod yr adborth yn nodi problemau cyson gyda'r gweithlu a recriwtio, a dywedodd wrth y pwyllgor fod hyn yn effeithio ar y sector cyhoeddus cyfan ar bob lefel, a bod darpariaethau ar gael.

Gofynnodd y pwyllgor pryd y derbyniwyd y cyllid a'r grantiau gan Lywodraeth Cymru.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod grantiau'n cael eu derbyn trwy gydol y flwyddyn, a'u bod yn cael eu dosbarthu mewn ffyrdd gwahanol, fel i leoliadau ac yn uniongyrchol i deuluoedd.

Dywedodd y pwyllgor fod achosion Llys Teulu wedi eu nodi yn goch, a bod hyn wedi bod yn anhawster yn hanesyddol. Gofynnodd y pwyllgor sut roedd y gwasanaeth yn cynllunio i wella hyn.

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor fod anawsterau wedi codi oherwydd oedi yn y Llys Teulu, oedd y tu hwnt i'w rheolaeth hwy. Sicrhaodd y pwyllgor fod trafodaethau cenedlaethol wedi digwydd ynghylch gwella'r system, ac y bu Casnewydd yn rhan o hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, er bod oedi wedi digwydd yn y maes hwn, fod y gwasanaeth wedi bod yn gwneud gwaith dargyfeirio rhagorol, megis Babi a Mi, i osgoi gorfod mynd i'r pedwerydd cam. Roedd y pwyllgor yn pryderu am yr achosion wedi cronni, ac unrhyw bryderon Diogelu oedd yn codi yn sgil hyn. Awgrymodd y pwyllgor y dylid cael cyfoesiad am y pwnc hwn yn y dyfodol.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r tanwariant yn cael ei ailddosbarthu yn y gwasanaeth, neu a fyddai'n mynd i'r gronfa i Gasnewydd gyfan?

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol mai cymysgedd o'r ddau fyddai'n digwydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar yr heriau i gyllideb y Gwasanaethau Plant 2022/2023 a byddai manylion am hyn mewn adroddiad yn nes ymlaen.
- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor fod modd dosbarthu dadansoddiad o'r ailddosbarthu er gwybodaeth.

Nododd y pwyllgor y gellid cyflwyno gradd Risg y Meysydd Gwasanaeth yn gliriach trwy gydweithio. Gofynnodd y pwyllgor a osodwyd dyddiad iddynt ymweld â Fferm Windmill pan fydd wedi ei gwblhau.

- Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol y byddid yn trefnu ymweliad cyn gynted ag y byddai'r adeiladwyr wedi trosglwyddo'r adeilad.

Roedd y pwyllgor yn bryderus am yr oedi oedd yn atal cwblhau Fferm Windmill, a gofynnwyd am gadarnhad ynghylch y dyddiad cwblhau.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn dal yn aros i'r adeilad gael ei drosglwyddo gan y contractwyr, a bod llawer o achosion yr oedi y tu hwnt i'w rheolaeth, gan gynnwys presenoldeb ystumod, costau deunyddiau, a phroblemau gyda'r cyflenwad dŵr. Roedd yn hyderus fod y gwaith yn tynnu at y terfyn, a sicrhaodd y pwyllgor fod gwaith eisoes wedi ei wneud gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i gofrestru, a bod gwaith hefyd yn mynd ymlaen gyda chyllid i ganiatáu iddynt ddod â'r staff i mewn i gael hyfforddiant a phrofiad tra bod yr oedi'n digwydd.

Gofynnodd y pwyllgor faint o blant fyddai modd eu lletya yn Fferm Windmill?

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod llety i 4 o blant, a bod yno hefyd 4 tŷ bychan gydag 1 ystafell wely, fel llety mewn argyfwng, ar wahân i'r prif dŷ. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Strategol mai llety yn y tymor byr i ganol fyddai hwn, er mwyn deall anghenion penodol y plant am leoliadau.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai Fferm Windmill yn gofalu am blant oedd ag anghenion penodol a fyddai fel arall yn cael eu lleoli allan o'r sir.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol hyn, gan ddweud wrth y pwyllgor eu bod wedi derbyn arian ar gyfer hyn. Pwysleisiodd fod pawb yn cydnabod fod llety preswyl o ansawdd uchel yn ddrud, ond fod modd iddynt ateb anghenion y plant yn fwy effeithiol gyda darpariaeth leol.

Gofynnodd y pwyllgor a oedd dyddiad pryd y gallai Fferm Windmill ddechrau cymryd plant

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol mai mis Medi oedd y nod gwreiddiol, ond mai mis Hydref ydoedd yn awr. Cydnabu'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol y gwaith a wnaed gan yr Aelod Cabinet blaenorol.
- Cydnabu'r pwyllgor hyn hefyd, a chroesawu'r ddau Aelod Cabinet newydd i'w rôl a'u safle yn y pwyllgor hwn.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai dyddiad agor penodol i Randy Rosedale.

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor y byddai hyn yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd oedi o'r math oedd wedi effeithio ar Fferm Windmill. Byddai'r dyddiad yn cael ei hysbysu unwaith i gadarnhad gael ei dderbyn.

Gofynnodd y pwyllgor a oedd cynlluniau ar gyfer Tŷ Caergrawnt.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oedd penderfyniad wedi ei wneud am ddefnyddio Tŷ Caergrawnt, a bod trafodaethau'n dal i ddigwydd am y ffordd orau i'w ddefnyddio. Holodd y pwyllgor a oedd unrhyw ddiffiniadau neu gyfamodau cyfreithiol ar Dŷ Caergrawnt, a gofynnwyd beth oedd yr angen am yr eiddo.
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oes unrhyw gyfamod sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r eiddo, ond na wyddai beth oedd yr angen am yr eiddo.

Gofynnodd y pwyllgor am esboniad o'r hyn a ymddangosai fel diffyg cynnydd gyda'r model o ymateb i gam-fanteisio ar blant.

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor fod cryn gynnydd wedi ei wneud yn y maes hwn, ond fod y gwaith yr adroddwyd amdano yn cymryd mwy o amser oherwydd ei faint. Tynnodd sylw at waith cydweithiwr blaenorol yn datblygu Pecyn Cymorth Cam-fanteisio a ddefnyddiwyd yng Nghasnewydd ac sydd yn awr yn cael ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill. Mae hyn yn golygu gweithio'n ehangach gydag ysgolion, rheini, teuluoedd a'r heddlu, yn ogystal â'r gwaith mewnol.
- Tynnodd y pwyllgor sylw at y ffaith fod cam yn dangos diffyg symud o 50% hefyd wedi ei farcio fel cam a gwblhawyd, a holwyd sut y gallai hyn ddigwydd? Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor nad yw'r gwerthuso wedi digwydd eto, ond fod rhan fawr o'r gwaith wedi ei gwblhau.

Gofynnodd y pwyllgor a oedd mesurau diogelu ar waith i geiswyr lloches oedd yn cyrraedd.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod ganddynt lefel uchel o arbenigedd i allu gweithio gyda'r plant hyn. Tynnodd sylw at yr ymdrechion a wnaed gyda rhieni maeth i allu cwrdd ag anghenion y plant. Hysbysodd y pwyllgor fod deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn newid yn rheolaidd, a'u bod yn cadw mewn cof y gallai mwy o bwysau godi yn y dyfodol o weithio gyda phlant o Wcráin.

Gofynnodd y pwyllgor pam fod y mesurau i gadw staff yn ymddangos yn wyrdd pan fod problem yn bodoli gyda'r gweithlu.

- Roedd y Cyfarwyddwr Strategol yn cydnabod fod yr heriau staffio yn rhai cyson ac yn effeithio ar y wlad gyfan, ond fod y mesurau penodol a gynlluniwyd gan y maes gwasanaeth wedi eu rhoi ar waith, ac felly wedi eu marcio fel rhai wedi eu cwblhau. Gofynnodd y pwyllgor am i broblem y gweithlu gael ei chyflwyno fel un oedd yn parhau, er mwyn iddynt gael sicrwydd fod y gwasanaeth yn gweithio i'w gwella.

Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad pam y gall 80% fod yn wyrdd ac oren, o edrych ar y gweithgor Cyfraith Gyhoeddus.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hwn yn ddarn sylweddol o waith, a bod oedi wedi digwydd. Mae'n brosiect sydd yn dal i fynd ymlaen ac yn newid, ond mae'r gwasanaeth wedi cwblhau'r camau a osodwyd allan ac felly wedi ei farcio'n wyrdd.

Gofynnodd y pwyllgor sut y gellid marcio 0% o ran bod yn Rhiant Corfforaethol yn wyrdd a choch, a phryd y gellir disgwyl cynnydd?.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn disgwyl am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a bod hyn y tu hwnt i'w rheolaeth hwy, ond mai'r gred oedd y byddai hyn yn digwydd yn fuan, ac mai'r pandemig a achosodd yr oedi.
- Dywedodd y pwyllgor y byddai'n well ganddynt restru'r weithred fel coch, a chynnwys esboniad fel sylw pellach.

Gofynnodd y pwyllgor pa effaith gafodd y pandemig ar brofiad gwaith a mentora i adawyr gofal, a sut oedd modd rhoi blaenoriaeth i hyn.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod cynllun yn bodoli cyn y pandemig ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal lle byddai pob un yn cael cefnogaeth unigol ac arbenigol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y dylai hyn wella toc a hefyd y dylai'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol gael effaith gadarnhaol.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai unrhyw wariant ar y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol yn cael ei fonitro?

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol na fyddai, ac nad oedd hyn dan eu rheolaeth hwy am mai cynllun Llywodraeth Cymru ydyw. Pwysleisiodd mai eu dyletswydd hwy yw eu cefnogi a gweithio gyda hwy i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddiogel.

Holodd y pwyllgor am y diffyg dewisiadau tai cymdeithasol, ac ansawdd y tai cymdeithasol sydd ar gael.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith wedi ei wneud i ymdrin â'r materion hyn ac i geisio cynnig mwy o ddewis. Tynnodd sylw at ehangu'r cynllun 'Pan Fydda'i yn Barod', a'i effaith ataliol gadarnhaol.

Gofynnodd y pwyllgor am gyfoesiad ar recriwtio gofawyr maeth a'r hyfforddiant a roddir iddynt

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith yn dal i fynd rhagddo, ac y bu pwyslais ar ehangu nifer y gofawyr maeth arbenigol. Hysbysodd y pwyllgor fod pob gofawr maeth yn cwblhau hyfforddiant cadarn, a bod cyrsiau hyfforddi arbenigol yn orfodol i'r gofawyr maeth hynny sy'n cymryd plant ag anghenion arbennig.

Soniodd y pwyllgor am gymhlethdod y mesurau perfformiad oedd yn cael eu cyflwyno ar lefel genedlaethol.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod yn rhaid eu cyflwyno fel hyn, ond cynigiodd gynnal sesiwn ar wahan lle gellid dangos i'r pwyllgor sut i ddeall y data.

Gofynnodd y pwyllgor am ddata am blant fyddai'n gadael gofal.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod llawer o resymau pam fod plant yn gadael gofal, megis dychwelyd at eu teuluoedd, cael eu mabwysiadu, cyrraedd 18 oed, etc., ac na ellid rhoi cyd-destun o'r data.

## 5 Adroddiad Diwedd Blwyddyn y Gwasanaethau Oedolion

### Gwahoddwyd:

**Mary Ryan – Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion**

**Cynghorydd Stephen Marshall – Aelod Cabinet dros Wasanaethau**

**Cymdeithasol**

**Cynghorydd Jason Hughes – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol y staff am eu gwaith a'u gwytnwch.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yr adroddiad.

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn teimlo'n bositif ar waetha'r pwysau cynyddol.

Hysbysodd y pwyllgor fod problemau gyda staffio, ac roedd yn bwysig felly cadw hyn mewn cof wrth gyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y mwyaf bregus yn cael help.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion ei bod yn bwysig sicrhau fod pobl yn cael eu cadw allan o'r ysbytai yn ystod y gaeaf lle bo modd, a'u bod yn ddiogel ac yn derbyn gofal yn eu cartrefi. Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor fod hyn yn cael ei wneud trwy ddefnyddio arian i ganolbwyntio ar ofalwyr sy'n cefnogi pobl yn y gymuned. Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor am yr achrediad a enillodd Casnewydd fel Dinas Pobl Hŷn.

### Cwestiynau:

Gofynnodd y pwyllgor a oedd dyddiad ar gyfer cychwyn datblygu gwasanaeth penodi rhanbarthol.

- Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor y buont yn cydweithio'n agos gyda Chaerffili, a bod y gwasanaeth penodi bron yn talu amdano'i hun. Mae cynllun dirprwyon ar gael hefyd sy'n helpu i wneud yn siŵr fod arian yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth, a bod y rhai sydd angen dirprwyon wedi cael eu rheoli gan Gaerffili, a'r penodi fyddai'r cam nesaf. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion eu bod yn fodlon gyda'r bartneriaeth gyda Chaerffili, a bod angen i'r cynllun dyfu. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion nad oedd amserlen o ran cael gwasanaeth rhanbarthol oherwydd bod y gwaith yn dal ymlaen.

Gofynnodd y pwyllgor am esboniad o benodi ac o ddirprwyo.

- Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod gwasanaeth penodi yn wasanaeth a gyflenwir gan y cyngor i helpu'r sawl nad oedd yn gallu rheoli eu harian eu hunain trwy roi lwfansau iddynt a'u cefnogi i reoli eu harian eu hunain. Esboniodd fod gwasanaeth dirprwyo yn ymdrin â'r sawl oedd â chryn swm o arian er mwyn sicrhau eu bod yn edrych ar ei ôl yn gywir ac yn y ffordd fwyaf effeithiol fel ffurf ar ddiogelu.

Holodd y pwyllgor beth oedd yn cael ei wneud i ymdrin â phrinder staff a llai o allu mewn gofal cartref.

- Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor y cymerwyd rhan mewn grwpiau panel oedd yn edrych i weld beth ellid ei wneud ar bob lefel. Hysbysodd y pwyllgor fod Casnewydd yn rhoi ei gwasanaethau cartref allan i ddarparwyr eraill, a'u bod mewn sefyllfa dda, yn gweithio gydag amrywiaeth o ddarparwyr. Mynegodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion bryder am y dyfodol oherwydd bod llawer o ofalwyr yn gadael y proffesiwn, a hyn yn creu prinder, heb sôn am yr angen i sicrhau cysondeb i bobl sy'n derbyn gofal

Holodd y pwyllgor am grantiau a chyllid i ofalwyr megis grantiau i helpu gyda gwersi gyrru.

- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod proses i ofalwyr dros 18 oed wneud cais am gymorth gyda gwersi gyrru petai methu gyrru yn eu hatal rhag dilyn gyrfu mewn gofal, a gellir edrych i mewn i hyn ar gyfer gofalwyr anffurfiol.

Gofynnodd y pwyllgor am esboniad am y tanwario.

- Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor fod y rhesymau'n debyg i'r rhai gyda'r Gwasanaethau Plant lle bu cyllid a grantiau ar gael yn ystod y pandemig. Dywedodd eu bod yn dal i weld sut i ddwyn y tanwariant hwnnw ymlaen.

Gofynnodd y pwyllgor sut y byddai'r diffyg twf mewn gwasanaeth penodi rhanbarthol yn cael effaith ar y gwasanaeth at y dyfodol.

- Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, am y buont yn gweithio mewn model hybrid gyda Chaerffili lle maent wedi cymryd peth o'r gwaith dirprwyo, dim ond dau oedd ar y rhestr aros bellach. Cadarnhaodd y buasent yn parhau i weithio gyda Chaerffili, ac mai'r broblem fwyaf yn y maes hwn oedd y gwasanaeth taliadau uniongyrchol a chaniatáu i bobl allu rheoli eu gofal eu hunain.

Gofynnodd y pwyllgor pryd y byddai integreiddio'r tîm llesgedd yn cael ei gwblhau.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod gwaith yn y maes hwn wedi cychwyn cyn Covid-19 a'i fod wedi symud yn fwy i ysbytai wedyn. Mae cynnydd yn digwydd yn awr, a hysbysodd y pwyllgor eu bod wedi ystyried hwb IAA yn y tîm llesgedd fel bod modd darparu gofal cofleidiol yng nghyswllt llesgedd. Nododd y dylai peth cynnydd ar hyn ddigwydd erbyn mis Rhagfyr.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai pobl yn gallu trefnu eu gofal eu hunain ac a fyddai gan y maes gwasanaeth wiriadau?

- Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, lle'r oedd angen am ofal, y byddid yn cynnal trafodaethau i ddechrau i weld a allai'r teulu roi'r gofal, gyda chymorth ariannol, cyn ystyried asiantaeth gofal. Hysbysodd y pwyllgor nad oedd y trefniant hwn ar gael ym mhob rhan o Gymru, gan nad yw rhai ardaloedd yn caniatáu i daliadau fynd i aelodau'r teulu. Y nod oedd sicrhau system deg a chyfartal o daliadau ledled y genedl. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion nad taliad arunig fyddai hwn, ac y byddai adolygiadau cyson yn digwydd.

Gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd a chyfoesiad am gynlluniau Datblygu Cyfleoedd Dydd yn y Gwasanaeth Estyn Allan.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion wrth y pwyllgor fod llawer o ganolfannau wedi cau yn ystod y pandemig, ac o'r herwydd fod modd gwneud gwaith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â gofynion defnyddwyr y gwasanaeth. Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor eu bod wedi adolygu'r systemau ac wedi rhoi model hybrid ar waith.

Gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd eu bod yn gweithredu dan CDAR hyd nes y byddai'r Camau Diogelu Gwarchod Rhyddid yn dod i rym.

- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y byddai'r newid i CDGRh yn digwydd ymhén rhai blynyddoedd. Hysbysodd y pwyllgor eu bod wedi defnyddio'r amser i sicrhau hyfforddiant cyfoes am y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Cynigiodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion drefnu sesiwn i'r pwyllgor am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r gwahaniaeth rhwng CDAR a CDGRh. Holodd y pwyllgor am y diffyg symud a ddangosir yn eitem 1 ynghylch Ymyriad Cynnar ac Atal. Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor fod pwysau ar y gweithlu wedi lleihau'r cyfleoedd am ddatblygu.

Gofynnodd y pwyllgor pa mor effeithiol fu Cartref yn Gyntaf o ran rhyddhau mwy o bobl o ysbytai.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y defnyddir y model Gartref yn Gyntaf cyn i bobl fynd i'r ysbyty er mwyn sicrhau fod gan bobl ofal priodol, ac mai dim ond y sawl sydd ag angen meddygol sydd yn yr ysbyty. Dywedodd y gall y pwyllgor gael y wybodaeth ac ystadegau o safbwynt Casnewydd.

Gofynnodd y pwyllgor am effaith diffyg symud yn y gwasanaeth penodi rhanbarthol ac a fyddai'r recriwtio sy'n digwydd ar hyn o bryd yn gwella'r canlyniad.

- Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor fod modd rheoli'r effaith, ond fod cynlluniau i symud ymlaen. Cadarnhaodd y Pennaeth eu bod wedi cefnogi pobl yn y gwasanaeth, ac wedi cynyddu galluedd mewn mannau eraill. Rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor fod gwelliannau wedi digwydd ers ysgrifennu'r adroddiad, a bod adnoddau wedi eu symud er mwyn cefnogi'r tîm penodi.

Gofynnodd y pwyllgor am eglurder am fframwaith newydd Llywodraeth Cymru a'r anghysondeb gyda graddfeydd COG.

- Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod y ganran o raddfeydd gwyrdd yno oherwydd bod y maes gwasanaeth wedi gwneud popeth i'w cwblhau o'u safbwynt hwy. Hysbysodd y pwyllgor y byddai newidiadau yn digwydd, ac efallai bod angen mwy o esboniad yn yr adroddiad.

Tynnodd y pwyllgor sylw at yr ailadrodd sy'n digwydd mewn rhai mannau, megis gweithredu CDGRh yn yr adroddiad.

- Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y gall amcanion o fewn prosiectau mawr ddod dan feysydd gwahanol, ond cytunodd y byddai modd eu dwyn oll at ei gilydd er mwyn eglurder. Holodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a oedd yr Aelodau yn ymwybodol o unrhyw ofalwyr di-dâl, ac os felly, iddynt roi gwybod i'r adran er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr hyn sy'n ddyledus iddynt.



Dyweddod y pwyllgor fod staffio yn broblem gyffredinol, a holwyd a oedd unrhyw beth yn cael ei wneud i ymdrin â hyn ar lefel Llywodraeth Cymru neu'r DU.

- Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor fod tasgluoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn edrych ar hyn. Dywedodd fod ffioedd wedi eu codi'n sylweddol i wasanaethau a gomisiynwyd ac i ofal nyrsio preswyl. Nodwyd y canoli blaenorol ar werth am arian yn hytrach na'r canoli presennol ar sicrhau yr atebir anghenion trigolion, a'r gallu i redeg gwasanaeth effeithiol, teg ac ystyrion. Tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion sylw at y ffaith fod ymdrechion yn cael eu gwneud i geisio denu a chadw staff trwy edrych ar lwybrau gyrfa a phrosiectau eraill.

Gofynnodd y pwyllgor pa effaith fyddai'r problemau staffio eleni yn gael at y dyfodol.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, os na fyddai digon o ofal yn y gymuned, mai cynyddu wnâi'r angen am ofalu preswyl, ac y byddai hynny'n gost i'r cyngor. Hysbysodd y pwyllgor fod pryder ynghylch datblygu taliadau uniongyrchol, ac a fyddai pobl yn gorfod troi at y cyngor am becynnau gofal. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y byddai pobl yn aros yn hwy na'r angen mewn ysbytai petai hyn yn digwydd.

Gofynnodd y pwyllgor am gyfoesiad ar y prosiect i gefnogi gofalwyr ifanc.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod prosiectau yn mynd rhagddynt yn dda, gan gynnwys lansio cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc. Dywedodd fod mwy o arian wedi ei dderbyn i Deuluoedd yn Gyntaf yn ogystal â gwasanaethau i blant tlawd..

Gofynnodd y pwyllgor pa effaith gâi y cynnydd yn nifer y sawl oedd yn cysylltu â'r gwasanaethau oedolion.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod y data yn cynnwys pobl a gyfeiriwyd ymlaen, ac nid o raid gyfanswm y bobl y cymerwyd eu hachosion. Nodwyd na chasglwyd unrhyw ddata o 2019 i 2020.

Diolchodd y pwyllgor i'r gwahoddedigion am fod yn bresennol, ac yna gadawsant y cyfarfod.

## **1. Casgliadau Adroddiadau Pwyllgorau**

Teimlai'r pwyllgor fod yr adroddiadau yn gynhwysfawr, a diolchwyd i'r Swyddogion a'u timau am eu gwaith caled yn eu meysydd gwasanaeth.

Gofynnodd y pwyllgor am i gopi o'r llythyr a ddarparwyd i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc am ganfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru gael ei ddsbarthu iddynt er gwybodaeth. Gofynnodd y pwyllgor am ddadansoddiad o'r tanwariant yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc er gwybodaeth.

Gofynnodd y pwyllgor, unwaith i ddyddiad gael ei gadarnhau i drosglwyddo Fferm Windmill, i ymweliad safle gael ei drefnu i'r pwyllgor.

Gofynnodd y pwyllgor am i sesiynau gwybodaeth gael eu trefnu iddynt hwy a'r Penaethiaid Gwasanaeth /Cyfarwyddwyr Strategol i roi manylion am y gwahaniaethau rhwng CDAR a CDGRh ac i fynd trwy'r mesuriadau perfformiad cenedlaethol yn fanylach.

Gofynnodd y pwyllgor am i wybodaeth am fenter Gartref yn Gyntaf oedd yn benodol i ardal Casnewydd.

Cododd y pwyllgor rai sylwadau am gyflwyniadau:

- Nodwyd fod modd cyflwyno graff a thabl Ardaloedd Risg y Gwasanaeth ar dudalen ar wahan, gyda'r cyd-destun yn cael ei ddarparu i'r ddau adroddiad er mwyn eglurder.
- Nodwyd ei bod yn gamarweiniol pan oedd ardaloedd a) wedi eu marcio fel rhai wedi eu cwblhau ond lle'r oedd gwaith yn dal i fynd ymlaen a b) fod D/G yn cael ei ddangos lle'r oedd gwaith yn dal i fynd ymlaen.

Croesawodd y pwyllgor y bartneriaeth rhwng Aelodau Cabinet a Chyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth.

## 6 **Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau**

Teimlai'r pwyllgor fod yr adroddiadau yn gynhwysfawr, a diolchwyd i'r Swyddogion a'u timau am eu gwaith caled yn eu meysydd gwasanaeth.

Gofynnodd y pwyllgor am i gopi o'r llythyr a ddarparwyd i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc am ganfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru gael ei ddsbarthu iddynt er gwybodaeth. Gofynnodd y pwyllgor am ddadansoddiad o'r tanwariant yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc er gwybodaeth.

Gofynnodd y pwyllgor, unwaith i ddyddiad gael ei gadarnhau i drosglwyddo Fferm Windmill, i ymweliad safle gael ei drefnu i'r pwyllgor.

Gofynnodd y pwyllgor am i sesiynau gwybodaeth gael eu trefnu iddynt hwy a'r Penaethiaid Gwasanaeth /Cyfarwyddwyr Strategol i roi manylion am y gwahaniaethau rhwng CDAR a CDGRh ac i fynd trwy'r mesuriadau perfformiad cenedlaethol yn fanylach.

Gofynnodd y pwyllgor am i wybodaeth am fenter Gartref yn Gyntaf oedd yn benodol i ardal Casnewydd.

Cododd y pwyllgor rai sylwadau am gyflwyniadau:

- Nodwyd fod modd cyflwyno graff a thabl Ardaloedd Risg y Gwasanaeth ar dudalen ar wahan, gyda'r cyd-destun yn cael ei ddarparu i'r ddau adroddiad er mwyn eglurder.
- Nodwyd ei bod yn gamarweiniol pan oedd ardaloedd a) wedi eu marcio fel rhai wedi eu cwblhau ond lle'r oedd gwaith yn dal i fynd ymlaen a b) fod D/G yn cael ei ddangos lle'r oedd gwaith yn dal i fynd ymlaen.

Croesawodd y pwyllgor y bartneriaeth rhwng Aelodau Cabinet a Chyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth.

## 7 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Adroddodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y pwyllgor nad oedd Blaen-Raglen Waith ar y pryd, ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.

## 8 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**

**13 Medi 2022 am 10am.**

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified